**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

30 Ebrill 2024

## Craffu cyffredinol ar waith gweinidogion

Annwyl Lesley,

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i'ch llongyfarch chi ar eich penodiad diweddar i rôl Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r heriau sy'n bodoli yn eich portffolio newydd: - mae llawer o'r rhain o ddiddordeb mawr i'r Pwyllgor, a byddem yn croesawu'r cyfle i edrych ar y rhain mewn sesiwn graffu gyffredinol gyda chi yn ystod tymor yr haf hwn. Mae'r materion mwyaf brys i ni efallai'n cynnwys cyflawni'r Strategaeth Ddiwylliant hir-ddisgwyliedig; diogelu'r casgliadau cenedlaethol; ariannu chwaraeon yn ddigonol mewn ardaloedd difreintiedig; a pholisi darlledu a'r cyfryngau yn y dyfodol. Byddaf yn gofyn i'n swyddogion gysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i nodi amser addas i'r Pwyllgor gwrdd â chi.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddymuno'n dda i chi yn eich rôl newydd, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, er gwybodaeth.

Yn gywir,

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.